**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - P/CS/7633/16

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

committeebusiness@wales.gsi.gov.uk

29 Tachwedd 2016

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Tachwedd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 2 Tachwedd i drafod cynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer fy mhortffolio. Rwy'n ymdrin â'ch pwyntiau isod.

**Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chymunedau'n Gyntaf**

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ar gyfer Atal ac Ymyrryd yn Gynnar wedi'i chreu drwy uno tair llinell cyllideb refeniw bresennol: Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Dibenion Cymunedol. Mae'r gyllideb olaf yn ariannu nifer o weithgareddau gwahanol, sef Cymunedau yn Gyntaf, Cymunedau am Waith ac Esgyn. Mae'r llinell gyfunol newydd hon yn y gyllideb yn adlewyrchu fy ffocws ar ymyrryd yn gynnar. Ni phenderfynwyd eto ar ddyraniadau manylach o fewn y BEL newydd hon ond rwyf wedi cadarnhau'n flaenorol y bydd cyllidebau refeniw Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn parhau'n ddigyfnewid yn ystod 2017-18.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dengys y dyraniad cyllideb newydd hwn ostyngiad o £1.15 miliwn yn 2017-18. Dyma'r swm y mae fy mhortffolio wedi'i gyfrannu at y toriadau cyni ar gyfer y flwyddyn ac rwyf wedi dewis lleihau'r BEL Atal ac Ymyrryd yn Gynnar, gan mai dyma'r un fwyaf o ran maint a'r mwyaf hyblyg i'w rheoli o fewn y flwyddyn. Er mwyn helpu'r Pwyllgor â'i waith craffu, mae Atodiad 1 yn rhoi dadansoddiad o ddyraniadau 2016-17 a gafodd eu cysoni â'r dyraniad BEL Atal ac Ymyrryd yn Gynnar newydd ar gyfer 2017-18.

Er bod angen sicrhau arbedion, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid, i ystyried sut y gallai gwell cysondeb rhwng rhaglenni leihau'r effaith bosibl ar wasanaethau rheng flaen. Bydd hyn hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Leol er mwyn cyflawni canlyniadau yn unol â blaenoriaethau rhaglen.

Rwy'n rhannu pryderon y Pwyllgor o ran sicrhau gwerth am arian. Mae dull integredig o ddarparu gwasanaethau yn adlewyrchu dull gweithredu sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dinesydd a fydd, yn fy marn i, yn helpu i gynyddu effeithiolrwydd ein rhaglenni a gwella gwerth am arian. Mae'n bosibl y bydd angen i brosesau craffu addasu er mwyn adlewyrchu'r integreiddio cynyddol hwn, oherwydd ni fyddai yr un ohonom am i drefniadau craffu atal gwelliannau i ansawdd y gwasanaethau a gaiff ein dinasyddion.

Mae llawer o awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda'u partneriaid wedi ceisio cysoni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg a rhaglenni eraill yn y gymuned, er mwyn gwella'r broses o integreiddio gwasanaethau a rhoi gwell cymorth i deuluoedd mewn angen. Drwy wneud hyn eu nod yw gwella eu gallu i atal ac ymyrryd yn gynharach. Mae hwn yn ddull gweithredu yr wyf yn ei gefnogi'n gyfan gwbl ac mae'n hanfodol er mwyn mynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae fy mhenderfyniad i uno cyllidebau ataliol yn dangos cefnogaeth i sicrhau mwy o gysondeb ac yn dangos y flaenoriaeth a roddaf i sicrhau ffocws parhaus ar ymyrryd yn gynnar.

Rwy'n pryderu bod rhaglenni ardal yn arwain at y ffaith bod y rhai mewn angen yn colli'r cyfle i gael cymorth hollbwysig felly mae'n rhaid sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd. Dyma'r hyn y mae gwaith allgymorth Dechrau'n Deg wedi ceisio mynd i'r afael ag ef. Dylai'r dull gwerthuso newydd yr ydym yn ei dreialu ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o'r rhaglen, gan gynnwys allgymorth. Yn y cyfamser, mae allgymorth yn destun yr un broses oruchwylio Rheoli Cyfrifon â gweddill y rhaglen. Yn yr un modd, mae'r broses barhaus o werthuso tystiolaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn dangos effeithiolrwydd systemau amlasiantaeth i gefnogi teuluoedd ar draws holl ardaloedd Awdurdodau Lleol.

Yn fy natganiad ar gymunedau cryf ar 11 Hydref, dywedais fy mod yn ystyried cau Cymunedau yn Gyntaf. Ers hynny rydym wedi dechrau rhaglen ymgysylltu eang ar y dull newydd o adeiladu cymunedau cydnerth, gan gynnwys ystyriaeth fanwl o'r effaith ar bobl, cymunedau, adeiladau cymunedol a sefydliadau eraill. Fel rhan o'n proses ymgysylltu, rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid cyflenwi i gael dealltwriaeth o oblygiadau unrhyw benderfyniad.

Bydd y rhaglen ymgysylltu yn darparu tystiolaeth eang i lywio fy mhenderfyniad. Cafwyd ymateb sylweddol eisoes i “Trafod Cymunedau”, ein harolwg ar-lein, ac rydym yn manteisio ar arbenigedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i sicrhau ein bod yn deall sut y gallai unrhyw newidiadau posibl i Gymunedau yn Gyntaf effeithio ar sefydliadau’r Trydydd Sector ac unigolion.

Ni allaf ragweld canlyniadau’r rhaglen ymgysylltu felly ni allaf ddarparu cyllidebau a chynlluniau cadarn ar hyn o bryd. Byddaf yn gwneud datganiad pellach ar ôl i gyfnod cyntaf yr ymgysylltu ddod i ben yn y Flwyddyn Newydd.

Rwy’n fodlon rhoi rhagor o wybodaeth i’r pwyllgor ar Ardaloedd Plant maes o law.

**Gofal plant**

Croesawaf gefnogaeth y Pwyllgor i’n cynnig gofal plant. Fel y nodwch, mae hon yn rhaglen uchelgeisiol ac yn ei chamau cynnar ac rwy’n ddiolchgar eich bod yn cydnabod yr heriau sy’n gysylltiedig â hyn.

Mae ystod o ffactorau a fydd yn dylanwadu ar gostau ein cynnig gofal plant newydd. Mae’r rhain yn cynnwys nifer y plant a anwyd o fewn unrhyw flwyddyn, y nifer sy’n gymwys i dderbyn y cynnig a nifer yr oriau gofal plant y gall teulu ddewis manteisio arnynt. Mae’r gyfradd sy’n daladwy am y gofal plant a’r newid tebygol mewn ymddygiad a gaiff ei symbylu gan y rhaglen yn ffactorau hollbwysig hefyd. Ar hyn o bryd rydym yn modelu nifer o dybiaethau.

Caiff ein gwaith modelu ei lywio gan yr ymchwil sy’n cael ei wneud gan Alma Economics a benodwyd i ddarparu tystiolaeth ar werth economaidd y sector gofal plant. Byddwn yn fodlon dychwelyd i’r Pwyllgor i drafod y gwaith hwnnw gyda chi’n fanylach ar ôl i’r adroddiad gael ei gyhoeddi.

Modelodd y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru gostau ar gyfer cynnig wedi’i dargedu, sydd ar gael i rieni sy’n gweithio, a chynnig cyffredinol, sydd ar gael i bob teulu. Roedd yr ystod costau, sef £125m i £228m, y cyfeiriwyd ati yn eich llythyr, yn amcangyfrif gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus ar gyfer cynnig cyffredinol a fyddai ar gael i bob teulu. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu cynnig sydd wedi’i anelu at rieni sy’n gweithio. Roedd ystod cost y Sefydliad Polisi Cyhoeddus ar gyfer cynnig wedi’i dargedu yn £53m i £97m.

Mae ein gwaith modelu a dadansoddi yn adeiladu ar waith a wnaed gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i amcangyfrif cost y cynnig gofal plant. Fodd bynnag, ceir gwahaniaethau yn y ffynonellau data, y tybiaethau a'r methodolegau a ddefnyddir. Er enghraifft, er bod y Sefydliad Polisi Cyhoeddus wedi edrych ar gyfnodau gwyliau, tybiodd y byddai 20 awr yr wythnos yn cael ei ddarparu yn hytrach na'r 30 awr lawn pan na chynigir y cynnig Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar. Gwahaniaeth arall yw'r ffynonellau data a ddefnyddir. Defnyddiodd gwaith y Sefydliad Polisi Cyhoeddus ddata'r Arolwg o Adnoddau Teulu o 2005/06 i 2013/14 i gynhyrchu ei amcangyfrifon cymhwystra. Mae ein gwaith modelu yn defnyddio data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gyda chyfartaledd ar gyfer y cyfnod 2013-15, sy'n dangos y bu cynnydd olynol yng nghyfran y plant 3 a 4 oed sy'n gymwys ar gyfer y cynnig.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru i asesu a dadansoddi gallu'r sector a byddwn yn ymestyn y dadansoddiad hwn i asesu gallu'r gweithlu yn ystod y misoedd nesaf. Rydym yn defnyddio gwybodaeth o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth diweddar a wnaed gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gwaith a gomisiynwyd gan CWLWM i gael gwell dealltwriaeth o gyfansoddiad y gweithlu. Bydd fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Dysgu Gydol Oes a'r Gymraeg, yn cyhoeddi ein cynllun 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu gofal plant, gwaith chwarae a'r blynyddoedd cynnar yn ystod y gwanwyn, gan ymdrin â llawer o'r materion hyn.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod digon o ddarpariaeth ar gael yn y Gymraeg ac ystyriwn fod y cynnig gofal plant yn gyfraniad pwysig at y nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Er y bydd y gwaith gydag Awdurdodau Lleol sydd wedi mabwysiadu'r strategaeth yn gynnar yn bwysig, mae nifer o elfennau eraill o waith y byddwn yn ymgymryd â hwy hefyd. Er enghraifft, yn ddiweddar mae Comisiynydd y Gymraeg wedi comisiynu ymchwil i ddarpariaeth gofal plant Cymraeg yng Nghymru a fydd yn bwysig er mwyn llywio'r sefyllfa bresennol a'r gwaith ehangu sydd ei angen i ddiwallu'r galw gan rieni. Byddwn hefyd yn defnyddio data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, a'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant sy'n cael eu cynnal gan Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd, i ymgymryd â phroses modelu gallu mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg. Bydd hyn yn edrych ar leoedd sy'n bodoli eisoes, y gweithlu presennol, y galw a'r bylchau mewn gwasanaethau ledled Cymru. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin i ddatblygu cynllun i gynorthwyo'r sector gofal plant cyfrwng y Gymraeg i ehangu er mwyn ymateb i'r galw a chynnig dewisiadau rhagweithiol i rieni.

Ers i mi ymddangos gerbron y Pwyllgor, rwyf wedi gwneud datganiad i'r cyfarfod llawn yn rhoi manylion yr awdurdodau y byddwn yn gweithio â hwy fel mabwysiadwyr cynnar, a gobeithiaf fod hwn wedi darparu rhywfaint o'r wybodaeth am y flaenamserlen y gofynnwch amdani. Yn ystod y misoedd i ddod byddwn yn gweithio'n agos iawn gyda Gwynedd ac Ynys Môn, Blaenau Gwent, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf, ac Abertawe i ddatblygu eu cynlluniau peilot. Mae angen gwneud penderfyniadau allweddol yn y gwanwyn yn cynnwys ble y cânt eu cynnal, nifer y plant a fydd yn cymryd rhan a'r data i'w casglu.

Rhagwelwn y bydd y mwyafrif o'r £10 miliwn sydd ar gael yn 2017-18 yn cael ei ddyrannu i Awdurdodau Lleol i dalu am ofal plant a gaiff ei ariannu gan y Llywodraeth, a dylai hyn ein galluogi i brofi'r system gyda o leiaf 3,800 o blant i ddechrau. Bydd angen cyfran o'r cyllid ar gyfer costau gweinyddol ac i gomisiynu gwerthusiad annibynnol o'r cynllun. Bydd y gwersi a gaiff eu dysgu o'r gweithredwyr cynnar hyn yn ein helpu i fireinio'r polisïau a'r systemau cyn eu cyflwyno'n ehangach drwy weddill Cymru. Bydd y cynlluniau peilot eu hunain yn cael eu cynnal o fis Medi 2017 ymlaen a thros y 12 mis canlynol byddwn yn eu monitro a'u gwerthuso, gan eu cyflwyno i ardaloedd ychwanegol o fis Medi 2018 ymlaen.

Yn ystod y cyfnod hwn bydd fy nhîm hefyd yn datblygu'r gwaith ar allu'r sector a'r gweithlu, gan weithio gyda chanfyddiadau o Alma Economics a chymorth CWLWM. Bydd ein hymgyrch Trafod Gofal Plant yn parhau yn ei ffurf bresennol hyd ddiwedd y gwanwyn ac erbyn hynny byddwn yn gobeithio gallu ailadrodd rhai o'r prif negeseuon rydym wedi'u derbyn gan rieni ac ymgynghori'n fanylach ar y cynnig ei hun. Rwyf hefyd wedi cyfarwyddo fy nhîm i edrych yn fanwl ar y gwaith sy'n mynd rhagddo mewn rhannau eraill o'r DU. Mae gan fy swyddogion berthynas waith dda â gweinyddiaethau eraill yn y DU, yn cynnwys eu cyd-swyddogion yn Lloegr a'r Alban sydd hefyd yn datblygu cynigion gofal plant, a bydd yn bwysig rhannu gwybodaeth, dulliau gweithredu a'r gwersi a ddysgir wrth i bethau fynd rhagddynt.

Yn ystod sesiwn y Pwyllgor, pwysleisiais fy ymrwymiad i ddarparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio sydd â phlant 3 a 4 oed, am 48 wythnos y flwyddyn. O ystyried pwysigrwydd yr ymrwymiad hwn a'r cymhlethdod cysylltiedig, byddwn yn fodlon dychwelyd i'r Pwyllgor i drafod agweddau allweddol ar y gwaith wrth i'r rhaglen ddatblygu ac ehangu dros dymor y Cynulliad hwn.

**Rhianta cadarnhaol a chostau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth i ddileu'r amddiffyniad cosb resymol**

Byddwn yn fodlon cyflwyno i'r Pwyllgor ganlyniadau'r gwerthusiad o'n hymgyrch rhianta cadarnhaol a gynhelir ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn ehangach pan fyddant ar gael.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am ragor o wybodaeth am gyfran y cyllid a ddyrennir i ddarparu prosiectau o fewn y rhaglen rhianta cadarnhaol. Ni chaiff unrhyw brosiectau annibynnol eu hariannu o dan y rhaglen rhianta cadarnhaol sy'n cynnwys ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd a chyngor sydd ar gael yn uniongyrchol i rieni drwy ein gwefan, tudalen Facebook, llyfrynnau a thaflenni.

O ran y gwaith paratoadol ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig i ddileu amddiffyniad cosb resymol, dylwn egluro fod y gwaith hwn yn cael ei wneud o fewn adnoddau presennol drwy'r tîm Rhianta a sefydlwyd o'r newydd o fewn Llywodraeth Cymru.

**Plant sy'n Derbyn Gofal, Mabwysiadu, CAFCASS Cymru**

Yn gyntaf, hoffwn egluro lleoliad y gyllideb, mater a godwyd gennych ar ddechrau eich llythyr. Cymerwyd llawer o amser i ddadansoddi rhai o'r cyfrifoldebau Gweinidogol ar ôl cyflwyno'r newidiadau yn y Llywodraeth ac roedd yr elfennau a oedd yn ymwneud â 'phlant sy'n derbyn gofal' a mabwysiadu ymhlith yr enghreifftiau hyn. Mae symiau cyllideb 2017-18 yn cael eu trosglwyddo i'm portffolio o fewn y Gyllideb Ddrafft a chaiff y symiau ar gyfer 2016-17 eu ffurfioli yn y Gyllideb Atodol arfaethedig. I fod yn glir, rwyf wedi bod yn gyfrifol am y cyllidebau o'r cychwyn ac rwyf wedi gweithredu'n unol â hynny; cymerwyd ychydig yn fwy o amser i drosglwyddo'r gyllideb ffisegol.

Rwyf wedi gofyn i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a fydd yn helpu i leihau nifer y plant sy'n mynd i ofal ac yn gwella canlyniadau ar gyfer y rhai sydd eisoes yn derbyn gofal, neu sydd wedi cael profiad o ofal. Mae'r grŵp yn adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i gyflawni yng nghyfnod un i nodi pa gamau ataliol ac ymyriadau cynnar y gellir eu cymryd.

Mae'r datrysiadau i'r heriau hyn yn gymhleth ac yn gofyn am weithio'n agosach ar draws y meysydd iechyd, tai, addysg, cyfiawnder teuluol a gwasanaethau cymdeithasol. Mae rhaglen waith cyfnod dau'r Grŵp yn cwmpasu amrediad eang o feysydd, gan gysylltu â phartneriaid ar draws llywodraeth leol, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru. Mae'n cwmpasu meysydd lle y gellir gweld effaith uniongyrchol, yn amrywio o edrych ar welliannau i ymarfer proffesiynol i dreialu prosiectau sy'n cefnogi mamau ifanc i helpu i sicrhau nad yw eu plant yn mynd i ofal, yn ogystal â datblygu strategaeth ar gyfer canlyniadau gwell yn y tymor hwy, sy'n hollbwysig.

Edrychaf ymlaen at weld canfyddiadau'r Grŵp a fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol gan helpu i wella uchelgeisiau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ac anelu at ddarparu'r newidiadau sylweddol sydd eu hangen i helpu'r plant hyn sy'n agored i niwed i gael dyfodol llwyddiannus.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn am sicrwydd, pe bai'r galw'n parhau i gynyddu, y bydd y gwasanaeth y mae CAFCASS Cymru yn ei ddarparu yn gynaliadwy. Mae systemau rheoli gwybodaeth CAFCASS Cymru a'i berthynas waith agos â'r llysoedd ac awdurdodau lleol, yn ei alluogi i ymateb yn effeithiol i gynnydd mewn llwythi gwaith a defnyddio ei adnoddau'n briodol. Bydd uwch dîm reoli a Phrif Weithredwr CAFCASS Cymru yn parhau i fonitro ac adolygu'r wybodaeth reoli bob mis er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu ymateb i amrywiadau yn y galw ledled Cymru. Hyd yma, mae'r trefniadau hyn wedi galluogi CAFCASS Cymru i sicrhau nad oes yn rhaid i'r un plentyn aros am wasanaeth.

**Hawliau Plant, Cyfranogiad a Chwarae**

Mae'r Gyllideb Ddrafft, unwaith eto, wedi dilyn dull gweithredu integredig mewn perthynas ag asesiadau o effaith, gan ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau strategol ar sail gwybodaeth, yn seiliedig ar ddadansoddiad o dystiolaeth ategol ynghylch grwpiau a phlant gwarchodedig. Mae hyn unwaith eto wedi ein galluogi i roi ystyriaeth lawn i anfantais economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg a datblygu cynaliadwy, yn ogystal â chanolbwyntio ar gydraddoldeb, trechu tlodi ac, wrth gwrs, hawliau plant.

Mae asesiadau o effaith yn elfen allweddol o'n hegwyddorion ar gyfer creu polisïau ac fe'u cynhelir fel rhan o'n gwaith parhaus ar ddatblygu ac adolygu polisïau. Mae hyn yn golygu, yng nghyd-destun dyraniadau'r gyllideb, y bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i dystiolaeth a dealltwriaeth o gydraddoldebau ac effeithiau eraill o'r cychwyn a thrwy gydol ein gwaith yn paratoi'r gyllideb. Cyflwynais i chi rai o'm Hasesiadau penodol o'r Effaith ar Hawliau Plant, ond nid oedd yr un o'r rhain yn effeithio ar y gyllideb ar gyfer 2017-18.

Yn gywir,

**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

**Atodiad 1**

Cysoni dyraniadau BEL y flwyddyn gyfredol (2016-17) â'r dyraniadau BEL Atal ac Ymyrryd yn Gynnar arfaethedig ar gyfer 2017-18.

| | |
|---|---|
| **Dyraniadau Terfynol y Gyllideb ar gyfer 2016-17** | |
| Dechrau'n Deg | £ 76.89m |
| Teuluoedd yn Gyntaf | £ 42.58m |
| Dibenion Cymunedol** | £ 36.06m |
| **Cyfanswm y Dyraniadau ar gyfer 2016-17** | **£155.53m** |
| Llai: gostyngiad 2017-18 | £ 1.15m |
| **Dyraniad Cyllideb Ddrafft 2017-18 wedi'i chyfuno â BEL Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | **£154.38m** |

*****Mae'r llinell wariant yn y gyllideb hon yn cynnwys cyllid Cymunedau'n Gyntaf, Cymunedau am Waith ac Esgyn.***